

Vaughan Gething AS/MS  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/02161/21

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deisebau

22 Chwefror 2021

Annwyl Janet,

Diolch yn fawr i chi am eich llythyr pellach dyddiedig 26 Ionawr ynglŷn â deiseb P-05-964, yn gofyn imi gyhoeddi neges glir y dylid ymestyn absenoldeb â thâl a chymorth ariannol a ddarperir mewn ymateb i Covid-19 i staff cronfa GIG Cymru sy'n agored i niwed a staff sy'n feichiog

Nid yw safbwynt Llywodraeth Cymru wedi newid. Er ein bod yn deall y sefyllfa a'r cyfyngiadau sy'n effeithio ar weithwyr cronfa y gofynnwyd iddynt warchod eu hunain, rydym eisoes wedi gofyn i'r Ymddiriedolaethau a'r Byrddau Iechyd edrych eto ar amgylchiadau unigol lle mae effeithiau'r sefyllfa wedi peri anawsterau, ac i ystyried a fyddai'n bosibl darparu cymorth penodol. Rydym felly'n parhau i gynghori unigolion i gysylltu â'r Ymddiriedolaeth neu'r Bwrdd Iechyd y maent wedi gwneud gwaith cronfa ynddynt i drafod eu sefyllfa'n uniongyrchol.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.